## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn ar gyfer y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

**3 Rhagfyr 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau (“ETS”) y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (“y prif Orchymyn”) fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei lunio ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, y DU a'r Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd rhyngddynt yn gweithredu ETS y DU ar y cyd fel Awdurdod ETS y DU ("yr Awdurdod"). Mae'r Cynllun yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr i leihau allyriadau yng Nghymru.

1.2 Ym mis Rhagfyr 2023, agorodd yr Awdurdod ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw “Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim”, a oedd yn edrych ar opsiynau i dargedu'n well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ac i sicrhau bod y Dyraniad Am Ddim o lwfansau sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddosbarthu'n deg. Mae nifer bach o'r newidiadau technegol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr yn gofyn am ddeddfwriaeth i'w gweithredu cyn cyflwyno Adroddiad Lefel Gweithgarwch 2025.

1.3 Nod y diwygiadau arfaethedig i'w gwneud gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2025 ("y Gorchymyn diwygio") yw:

1.3.1 newid y ffordd yr ymdrinnir â lwfansau sy’n cael eu dyrannu am ddim ym mlwyddyn olaf gweithgarwch gweithfa neu is-weithfa pan fo terfyniad parhaol, fel y byddai hawl gweithredwyr i ddyraniadau am ddim yn ystod eu blwyddyn olaf o weithredu yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol. Os mai gweithgarwch datgarboneiddio sy’n gyfrifol am y terfyniad parhaol, gall gweithredwyr wneud cais i barhau i gael blwyddyn lawn o lwfansau am ddim. Felly, ni fydd y newid a awgrymir yn gymwys i'r gweithredwyr hyn (yn amodol ar dystiolaeth ddigonol).

1.3.2 diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol i gynnwys senarios pan fo terfyniad dros dro yn cael ei ystyried yn derfyniad parhaol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Gan y bydd Seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn craffu ar y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy'n gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

3.2 Rhagnodir y weithdrefn ar gyfer gwneud Gorchymyn o'r fath yn y Cyfrin Gyngor gan adran 48 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

3.3 Gan fod y Gorchymyn diwygio yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n dod o dan adran 48(3) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys iddo.

3.4 Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y prif Offeryn i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2021. Mae'n para am ddeng mlynedd ac wedi'i rannu'n ddau gyfnod dyrannu pum mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithfeydd diwydiannol ynni-ddwys, cynhyrchwyr pŵer a gweithredwyr awyrennau fonitro eu hallyriadau ac adrodd arnynt, a chael ac ildio lwfansau sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae cap ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Bydd rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau am ddim, i'w helpu i liniaru ar ddadleoli carbon[1] a chyhoeddir y manylion mewn tablau dyrannu.

3.5 Bu sawl diwygiad i'r prif Orchymyn i wneud newidiadau technegol sy'n gwella'r modd y mae ETS y DU yn gweithredu ar gyfer cyfranogwyr a rheoleiddwyr. Mae'r diwygiadau hynny wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion a ganlyn yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023, Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr 2024 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2024.

3.6 Gwnaed y prif Orchymyn a'r Gorchmynion diwygio hyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Mae'r Gorchymyn diwygio hwn hefyd yn cael ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

3.7 Gwnaed diwygiadau hefyd i ETS y DU drwy is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 2020. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn:

[1] Carbon wedi'i ddadleoli yw'r allyriadau a gynhyrchir pan symudir safle cynhyrchu o un wlad i wlad arall am fod lefel yr ymdrech i ddatgarboneiddio drwy brisio carbon a rheoliadau hinsawdd yn wahanol.

Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Phlatfformau Arwerthu Cydnabyddedig (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2021, a Rheoliadau Arwerthu Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Wrth i'r cynllun aeddfedu, mae'r Awdurdod wedi bod yn ceisio gwella sut mae'n gweithredu. Ym mis Rhagfyr 2023, agorodd yr Awdurdod ymgynghoriad 12 wythnos o'r enw "Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim", sy'n edrych ar opsiynau i dargedu'n well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ac i sicrhau bod y dyraniad am ddim o lwfansau sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddosbarthu'n deg. Mae nifer bach o'r newidiadau technegol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr yn gofyn am ddeddfwriaeth i'w gweithredu cyn cyflwyno Adroddiad Lefel Gweithgarwch 2025, ac felly mae'r Awdurdod yn darparu ymateb cynnar i'r newidiadau hyn.

4.2 Y ddau newid technegol a gynhwysir yn y Gorchymyn diwygio yw:

- Newid Technegol Un: Ymdrin â therfyniadau parhaol
- Newid Technegol Dau: Diweddaru'r diffiniad o derfyniadau parhaol

4.3 Mae Newid Technegol Un yn ymwneud â newid y ffordd yr ymdrinnir â dyraniadau am ddim yn ystod blwyddyn olaf gweithgarwch yn achos terfyniad parhaol (pan fo gweithredwr yn rhoi'r gorau i weithgarwch a reoleiddir yn barhaol mewn gweithfa, neu weithrediadau mewn is-weithfa).

4.4 O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, pan fydd gweithgarwch yn dod i ben yn barhaol, mae gweithredwyr yn cadw'r dyraniadau am ddim yr oedd ganddynt hawl iddynt yn ystod flwyddyn olaf gweithrediad y weithfa neu'r is-weithfa. Nid fydd y dyraniadau am ddim wedyn yn cael eu dosbarthu mwyach yn y flwyddyn ar ôl i'r gweithgarwch neu'r gweithrediadau ddod i ben. Mae hyn oherwydd y bydd gweithredwyr yn parhau i ymwneud â'r pris carbon yn ystod blwyddyn olaf y gweithgarwch, ac felly byddant yn parhau i ddadleoli carbon y mae'n rhaid ei liniaru. Fodd bynnag, gall hyn arwain at rai gweithredwyr yn cael mwy o ddyraniadau am ddim ym mlwyddyn olaf y gweithgarwch na'r hyn sy'n ofynnol i liniaru ar ddadleoli carbon yn ddigonol, ac mewn rhai achosion, fwy na'r allyriadau a adroddwyd ganddynt.

4.5 Felly, mae'r Gorchymyn diwygio yn ceisio diwygio'r rheolau ar gyfer terfyniadau parhaol fel bod hawl gweithredwr i ddyraniad am ddim ym mlwyddyn olaf gweithgarwch neu weithrediadau yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol, nid amcangyfrif o'r lefelau hynny. Bydd

eithriad ar gyfer gweithredwyr sy'n darparu tystiolaeth y terfynwyd y gweithgarwch oherwydd rhesymau datgarboneiddio, er mwyn cynnal y cymhelliant i ddatgarboneiddio. Felly, bydd y gweithredwyr hyn yn parhau i gael blwyddyn gyfan o ddyraniadau am ddim yn seiliedig ar eu lefelau gweithgarwch blaenorol (ar yr amod bod digon o dystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos y terfynwyd y gweithgarwch oherwydd datgarboneiddio).

4.6 Mae Newid Technegol Dau yn ymwneud â newid y diffiniad o derfyniad parhaol, er mwyn rhoi mwy o eglurder yn y senario pan fo terfynu gweithgarwch neu weithrediadau dros dro yn cael ei ystyried yn derfyniad parhaol.

4.7 O dan y rheolau presennol, mae gweithfa wedi rhoi’r gorau i weithredu os nad yw gweithgarwch a reoleiddir bellach yn cael ei gynnal yn y weithfa ac mae'n dechnegol amhosibl iddi ailddechrau gweithredu. Mae is-weithfa wedi rhoi'r gorau i weithredu os nad yw bellach yn gweithredu ac mae'n dechnegol amhosibl iddi ailddechrau gweithredu. Gall y diffiniadau hyn arwain at anawsterau gan y gellir dehongli technegol amhosibl i ailddechrau gweithredu mewn gwahanol ffyrdd.

4.8 Felly, mae'r Awdurdod wedi cynnig diweddaru'r diffiniad o derfyniad parhaol i ddileu'r cyfeiriad at dechnegol amhosibl i ailddechrau gweithredu ("technically impossible to resume operation”) ac yn hytrach cyfeirio at derfyniad parhaol gweithgarwch neu weithrediadau a reoleiddir.

4.9 Terfyn tiriogaethol y Gorchymyn diwygio yw'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

4.10 Mae'r prif newidiadau wedi'u crynhoi isod:

*<u>Newidiadau i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020</u>*

4.11 Mae Erthygl 5 o'r Gorchymyn diwygio yn newid y diffiniad o'r hyn a olygir gan "rhoi’r gorau i weithredu" (“ceased operation”) a dolenni i'r ddarpariaeth sy'n nodi pan fydd rhaid trin gweithfeydd fel rhai sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu.

4.12 Mae Erthygl 6 o'r Gorchymyn diwygio yn dirymu Erthygl 34C(1)(e), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddiweddaru'r tabl dyrannu pan fydd gweithfa wedi rhoi’r gorau i weithredu.

4.13 Mae Erthygl 7 o'r Gorchymyn diwygio yn ymestyn y darpariaethau apelio i'r senario pan fo rheoleiddiwr yn rhoi rhybudd bod gweithfa neu is-weithfa i'w thrin fel un sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu.

4.14 Mae Erthygl 8 o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio Atodlen 6 i ddiweddaru'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded allyriadau nwyon tŷ

gwydr, i gynnwys yr amod terfynu (y gofyniad i hysbysu'r rheoleiddiwr o faterion amrywiol sy'n ymwneud â therfynu), i newid yr amodau y gall rheoleiddwyr roi rhybudd oddi tanynt fod gweithfa i'w thrin fel un sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu, ac i aralleirio'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ystyried bod trwydded yn cael ei hildio (ac felly bod y gweithgarwch a reoleiddir yn dod i ben).

4.15 Mae Erthygl 9 o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio Atodlen 7 i'w gwneud yn ofynnol i drwydded ysbyty neu allyrrydd bach gynnwys yr amod terfynu.

4.16 Mae Erthygl 19 o'r Gorchymyn diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr, yn unol ag Atodlen 6 i'r prif Orchymyn, amrywio trwydded pob gweithfa i ystyried y diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn diwygio.

*Newidiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1842 (y Rheoliad Newidiadau yn y Lefelau Gweithgarwch, (ACLR)) fel y caiff ei gymhwyso i gyfraith ddomestig.*

4.17 Mae Erthygl 11 o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio Erthygl 2 o ALCR i newid y diffiniad o'r hyn a olygir gan roi'r gorau i weithredu ("ceased operation") a dolenni i'r ddarpariaeth sy'n nodi pryd y mae'n rhaid trin is-weithfeydd fel rhai sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu.

4.18 Mae Erthygl 12 o'r Gorchymyn diwygio yn mewnosod Erthygl 2a o ALCR i ganiatáu i reoleiddiwr roi rhybudd bod y rheoleiddiwr o'r farn bod yr holl weithrediadau wedi dod i ben yn barhaol mewn is-weithfa. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle gellir rhoi hysbysiad o'r fath a'i dynnu yn ôl.

4.19 Mae Erthygl 13 o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio Erthygl 3 o ALCR i bennu manylion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiad lefel gweithgarwch y mae gweithredwyr yn ei gyflwyno pan fydd gweithrediadau wedi dod i ben mewn is-weithfa.

4.20 Mae Erthygl 14 o'r Orchymyn diwygio yn mewnosod Erthyglau 3za, 3zb a 3zc. Mae Erthygl 3za yn darparu ar gyfer cyfrifo ac addasu dyraniadau am ddim yn ystod blwyddyn olaf gweithrediad gweithfa i fod yn seiliedig ar lefel y gweithgarwch yn y flwyddyn olaf honno. Mae Erthygl 3zb yn darparu ar gyfer y senario pan fo gweithfa yn rhoi'r gorau i weithredu ond yn darparu tystiolaeth y gwnaed hynny at ddibenion datgarboneiddio, ac os felly gellir gwneud cais i beidio ag addasu'r dyraniad am ddim yn y flwyddyn olaf. Mae Erthygl 3zc yn caniatáu gwneud cais i ymestyn yr amser y gellir cyflawni Erthygl 3ZB. Mae Erthygl 20 o'r Gorchymyn diwygio yn nodi darpariaethau trosiannol h.y amgylchiadau na fydd Erthygl 3za yn gymwys ynddynt.

4.21 Mae Erthygl 15 o'r Gorchymyn diwygio yn dirymu Erthygl 5(4), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr, pan fo is-weithfa wedi rhoi'r gorau i

weithredu, gyfrifo addasiad i ddyraniad am ddim yr is-weithfa honno i sero o'r flwyddyn ar ôl iddi roi'r gorau i weithredu.

4.22 Mae Erthygl 16 o'r Gorchymyn diwygio yn dirymu Erthygl 5a-5c, sy'n caniatáu hepgor data 2020 mewn cyfrifiadau newid lefelau gweithgarwch (oherwydd effaith pandemig COVID-19).

4.23 Mae Erthygl 17 o'r Gorchymyn diwygio yn diwygio Erthygl 6a i sicrhau, pan fo'r rheoleiddiwr yn pennu lefel gweithgarwch neu'n addasu'r dyraniad am ddim o dan Erthygl 3za, fod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod.

*Newidiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y Rheoliad Dyraniadau am Ddim (FAR)) fel y caiff ei gymhwyso i gyfraith ddomestig.*

4.24 Mae Erthygl 18 o'r Gorchymyn diwygio yn dirymu Erthygl 26 o FAR, sy'n darparu na ellir dyrannu lwfansau i weithfeydd sydd wedi rhoi’r gorau i weithredu, a bod yn rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r dyraniad lwfans blynyddol terfynol i weithfa o'r fath.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael ac ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (adran 48(1)(a) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r personau hynny y mae’r ddeddfwriaeth ddrafft yn effeithio arnynt fel y gwelant yn briodol (adran 48(1)(b) o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008).

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 18 Rhagfyr 2023 ac 11 Mawrth 2024[2], a oedd yn manylu ar y newidiadau technegol a gynigiwyd. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys cyfranogwyr y cynllun yr effeithiwyd arnynt ac unrhyw sefydliad arall a oedd wedi dymuno rhoi barn.

5.3 Roedd y rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid a ymatebodd o blaid Newid Technegol Un, gyda 33 o'r 40 a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig (83%) a phump yn anghytuno â'r cynnig (13%).

5.4 Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo y byddai'n sicrhau tegwch wrth roi dyraniadau am ddim mewn amgylchiadau pan fo terfyniad parhaol ac y byddai'n atal gorddyrannu. Roedd y pryderon a godwyd yn gysylltiedig â baich gweinyddol posibl a chymhlethdod cyfrifo lefelau gweithgarwch gwirioneddol y flwyddyn olaf.

[2] Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim

5.5 Roedd y rhan fwyaf o rhanddeiliaid a ymatebodd o blaid Newid Technegol Dau, gyda 18 o'r 27 a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig (67%) a naw yn anghytuno â'r cynnig (33%) ond heb roi rheswm am hynny.

5.6 Mae copïau o'r ddogfen ymgynghori ac ymateb yr Awdurdod ar gael ar gais.

5.7 Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd ac mae wedi nodi ei fod yn fodlon i'r ddeddfwriaeth hon fynd yn ei blaen.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

6.1 Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud dau newid ar ffurf Newid Technegol Un a Newid Technegol Dau, fel y'u disgrifir uchod.

6.2 O ran Newid Technegol Un, mae dau opsiwn ar gael:

6.2.1 Yr opsiwn busnes fel arfer – cadw'r rheolau presennol ar gyfer terfyniadau parhaol, a bod yr hawl i ddyraniadau am ddim yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch cyfartalog o fewn y pum mlynedd cyn hynny.

6.2.2 Bwrw ymlaen â Newid Technegol Un a bod yr hawl i ddyraniadau am ddim yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch gwirioneddol yn y flwyddyn olaf o weithredu.

6.3 Mae dadansoddiad wedi dangos bod mater a allai fod yn sylweddol o ran tegwch a diffyg targedu dyraniadau am ddim lle y mae eu hangen i liniaru ar ddadleoli carbon. Mae hyn oherwydd y posibilrwydd y gall rhai gweithredwyr sy'n rhoi'r gorau i weithgarwch yn barhaol gael mwy o ddyraniad am ddim na'u hallyriadau yn eu blwyddyn olaf. Byddai'r Newid Technegol Un arfaethedig yn gweithio i ddatrys y mater hwn.

6.4 Felly, mae swyddogion wedi argymell bwrw ymlaen â Newid Technegol Un.

6.5 Fel y manylwyd uchod, cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y newid arfaethedig ac roedd mwyafrif y rhanddeiliaid o blaid y cynnig.

6.6 O ran Newid Technegol Dau, fe'i ystyrir yn newid diffiniadol bach ac felly ni ddisgwylir iddo effeithio ar y farchnad. Mae'n cyd-fynd â'r amcanion ar gyfer dyraniadau am ddim ac mae'n ymarferol o safbwynt technegol a gweithredol. Felly, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar Newid Technegol Un.

### 7. Graddfa'r Newid a Chostau a Manteision

*Graddfa'r newidiadau o fewn y Cynllun*

7.1 Disgwylir i raddfa effaith y newidiadau hyn fod yn fach. Darperir dadansoddiad isod.

7.2 Yn 2022, caeodd 16 o weithfeydd ledled y DU o fewn blwyddyn y cynllun, gan sbarduno'r rheolau terfynu parhaol, gyda dwy o'r 16 o weithfeydd hyn wedi'u lleoli yng Nghymru. Cafodd y safleoedd hyn gyfanswm o ryw 800,000 o ddyraniadau o lwfansau am ddim y DU. Mae hyn yn cynrychioli tua 2% o gyfanswm y dyraniadau am ddim a roddwyd yn 2022 ac effeithiodd ar oddeutu 2% o safleoedd. Ar gyfer y safleoedd hyn, roedd yr allyriadau a gofnodwyd ym mlwyddyn cau'r gweithfeydd yn cyfateb i gyfanswm o 150,000 (tunnell o CO2 cyfatebol), sy'n sylweddol

is na chyfanswm y dyraniadau am ddim a roddwyd a thua 0.1% o gyfanswm allyriadau ETS.

7.3 Dylid nodi bod amrywiad sylweddol yn y gwahaniaeth net rhwng dyraniadau am ddim ac allyriadau safleoedd unigol: cafodd tua thraean ohonynt fwy o ddyraniadau am ddim na'u hallyriadau blynyddol, a chafodd dwy ran o dair lai o ddyraniadau am ddim na'u hallyriadau blynyddol. Effeithiodd y gyfradd y rhoddir dyraniad am ddim i safle ac amseriad cau safle ar ganlyniadau unigol, gyda chau cynharach yn gysylltiedig ag allyriadau is ond bod y safleoedd hynny yn parhau i gael y dyfarniad am ddim llawn ar gyfer blwyddyn y cynllun o dan y rheolau cyfredol.

7.4 Yn 2023, roedd 10 wedi cau yn ETS y DU, ac nid oedd yr un ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd y safleoedd a oedd wedi cau yn cynrychioli cyfran lawer llai o allyriadau a dyfarniadau am ddim: cafodd safleoedd a oedd wedi rhoi'r gorau yn barhaol i weithgarwch a reoleiddir gyfanswm o 10,000 o lwfansau dyraniadau am ddim y DU, a chofnododd safleoedd o'r fath gyfanswm o 60,000 o allyriadau, llai na 0.1% o gyfanswm y dyraniadau am ddim ac allyriadau yn y drefn honno.

*Costau a manteision yr opsiwn busnes fel arfer*

7.5 Ni ystyrir bod yr opsiwn busnes fel arfer yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol, dim ond y byddai'r prosesau presennol yn parhau ar waith.

7.6 Cost allweddol yr opsiwn hwn fel yr amlygwyd uchod yw y gellir ystyried nad yw'n targedu cymorth dadleoli carbon digonol o ran dyraniadau am ddim mewn rhai achosion o gau. Felly, rhoddir lwfansau diangen i safleoedd sydd wedi cau.

7.7 Risg ehangach ychwanegol yw y gall y rheolau presennol arwain at sioc yng nghyflenwad y farchnad os yw safleoedd yn gwerthu symiau mawr o lwfansau ar y farchnad. O ystyried bod mwyafrif pryniannau marchnad eilaidd ETS y DU yn cael eu gwneud gan frocer neu gyfryngwr arall, yn hytrach nag yn uniongyrchol rhwng gweithredwyr, mae'r risg yn debygol o fod yn isel. Serch hynny, byddai'r Newid Technegol yn lleihau'r risgiau hyn drwy leihau gwargedion mawr y gall gweithredwyr sy'n cau eu gwerthu i'r farchnad.

*Costau a manteision bwrw ymlaen â Newid Technegol Un*

7.8 Un o brif fanteision y newid i'r rheolau yw bod dyraniadau am ddim yn cael eu targedu'n fwy cywir, a'u bod yn cael eu rhoi yn gymesur â gweithgarwch, fel y bwriadwyd gan y Fethodoleg Dyrannu am Ddim. Felly, dylai'r newid hwn gefnogi amcanion arfaethedig lleihau allyriadau drwy ETS y DU. Mae'r rheol hon hefyd yn cadw'r hyblygrwydd i roi dyraniad am ddim llawn pan ddisgwylir iddo gefnogi datgarboneiddio, wrth gau bwlch mewn sefyllfaoedd eraill.

7.9 Byddai'r newid yn cael effaith o'i gymharu â'r opsiwn busnes fel arfer yn yr ystyr na fydd gweithredwyr sy'n cau at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â datgarboneiddio ac a fyddai wedi cael mwy o ddyraniadau am ddim na'u hallyriadau gwirioneddol, bellach yn cael y gorddyraniad hwn. Felly, ni fyddent yn gallu gwerthu'r lwfansau diangen hyn i'r farchnad. Fodd bynnag, mae dyraniadau am ddim yn sbardun polisi allweddol ar gyfer lliniaru ar ddadleoli carbon. Nid yw'r opsiwn busnes fel arfer yn targedu cymorth o ran dadleoli carbon yn ddigonol. Mae hyn oherwydd bod lwfansau diangen (uwchlaw eu hallyriadau terfynol) yn cael eu rhoi i safleoedd sydd wedi cau. Mae hyn yn golygu bod y safleoedd hyn yn elwa'n ariannol y tu allan i bwrpas y polisi ac felly mae cyfiawnhad dros newid y rheol.

7.10 Yn gyffredinol, ystyrir bod yr opsiwn hwn yn ymarferol i'w weithredu o fewn y rheolau cyfredol a gofynion y Fethodoleg Dyrannu am Ddim, heb unrhyw faterion mawr wedi'u nodi a allai arwain at heriau gweithredu neu gostau sylweddol.

7.11 O ran effaith dechnegol a gweithredol, bernir bod y newid hwn yn syml ac yn ymarferol. Efallai y bydd cost ymgyfarwyddo a gweinyddol i Reoleiddwyr ym mhob un o'r pedair gwlad, wrth fabwysiadu'r rheolau a gweithredu'r newidiadau. Fodd bynnag, o ystyried y gofynion adrodd sydd eisoes ar waith a'r nifer bach o safleoedd sy'n cau, ni ddisgwylir i hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau gweinyddol mewn perthynas â'r opsiwn busnes fel arfer.

7.12 Dangosodd y data cydymffurfio hanesyddol (y manylir arnynt uchod) fod terfyniad parhaol yn effeithio ar is-set fach o weithfeydd a chyfran fach o ddyraniadau am ddim. O'r herwydd, rydym wedi asesu ei fod yn annhebygol o gael effaith fawr ar baramedrau’r cynllun megis faint o ddyraniadau am ddim sydd ar gael a'r tebygolrwydd o fynd yn uwch na Chap y Diwydiant – er na ellir diystyru'r effaith hon yn achos safleoedd mawr sy’n cau.

7.13 O ran effeithiau posibl y newid hwn ar ddefnyddwyr, nid ydym yn disgwyl effeithiau sylweddol ar filiau’r cartref na biliau defnyddwyr. Fel y nodwyd, mae dyraniadau am ddim sy'n gysylltiedig â therfyniadau parhaol wedi cynrychioli cyfran fach iawn (0.1% - 2%) o gyfanswm y dyraniadau am ddim yn ystod blynyddoedd diweddar y cynllun. Nid ydym yn disgwyl effeithiau ar ETS y DU, nac ar bris lwfansau'r DU, felly ni ddisgwylir effeithiau ar ddefnyddwyr. Yn ogystal, byddai'r newidiadau yn berthnasol i weithredwyr sy'n cau, ac felly ni ddisgwylir iddynt effeithio'n sylweddol ar weithredwyr gweithfeydd sy’n parhau ar agor.

7.14 Yn gyffredinol, mae asesiad yr Awdurdod yn dangos bod y newid polisi hwn yn dechnegol ymarferol, yn debygol o wella’r dull o dargedu dyraniadau am ddim, ac yn lleihau'r risg o orddyrannu mewn achosion o derfyniadau parhaol o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol. Fel y nodir uchod, ni ddisgwylir i'r polisi hwn gynyddu costau na gosod heriau

gweithredu mewn perthynas â’r rheolau cyfredol a gofynion y rheolau dyrannu am ddim. Yn olaf, mae’r effeithiau neu’r risgiau ehangach i’r farchnad yn debygol o leihau o ganlyniad i'r newid hwn o'u cymharu â'r opsiwn busnes fel arfer.

7.15 Gan fod disgwyl i'r effaith i'r farchnad ei hun fod yn gyfyngedig, bydd effeithiau cystadleuaeth ar y sectorau dan sylw (diwydiant, cynhyrchu pŵer ac awyrennau) hefyd yn gyfyngedig.